



Baromedr Busnesau Twristiaeth Cymru

Cam Haf 2026



Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.

This document is also available in English.

© Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-1-80853-520-8

Baromedr Busnesau Twristiaeth Cymru: Cam Haf 2026

Anthony Lydall, Strategic Research and Insight



Safbwyntiau'r ymchwilydd yw'r rhai a fynegir yn yr adroddiad hwn, nid safbwyntiau Llywodraeth Cymru o angenrheidrwydd

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â'r canlynol:

Y Tîm Ymchwil a Mewnwelediadau

Croeso Cymru

Yr Economi, Ynni a Thrafnidiaeth

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

Cyfeiriad e-bost: tourismresearch@llyw.cymru

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.

This document is also available in English.

ISBN: 978-1-80853-520-8

27 Hydref 2026

© Hawlfraint y Goron 2026



Mae'r holl gynnwys ar gael dan Fersiwn 3.0 Trwydded Agored y Llywodraeth, ac eithrio lle nodir fel arall.

[Trwydded Agored y Llywodraeth](#)

Cynnwys

1.	Y prif ganfyddiadau	2
2.	Cefndir a dull	6
3.	Perfformiad dros yr haf	7
4.	Archebu ymlaen llaw a hyder	15
5.	Twristiaeth feicio	18
6.	Anghenion hygyrchedd	22

Rhestr o dablau a siartiau

Tablau

- [Tabl 1: sampl ymchwil yn ôl sector a rhanbarth](#)
- [Tabl 2: lefelau deiliadaeth net yn ôl sector a rhanbarth, Mehefin i Awst](#)
- [Tabl 3: deiliadaeth a archebwyd yn ôl sector a rhanbarth, Hydref i Ragfyr](#)

Siartiau

- [Ffigur 1: C1 “Faint o gwsmeriaid a gawsoch yr haf hwn o gymharu â'r haf y llynedd?” yn ôl sector](#)
- [Ffigur 2: C1 “Faint o gwsmeriaid a gawsoch yr haf hwn o gymharu â'r haf y llynedd?” yn ôl rhanbarth](#)
- [Ffigur 3: C2 “A oes yna unrhyw resymau pam eich bod wedi cael ychwaneg o gwsmeriaid yr haf hwn?” \(heb gymell\)](#)
- [Ffigur 4: C3 “A oes yna resymau arbennig pam y cawsoch lai o gwsmeriaid yr haf hwn?” \(heb gymell\)](#)
- [Ffigur 5: C4 “Faint o gwsmeriaid a gawsoch yr haf hwn o gymharu â'r haf diwethaf o bob un o'r marchnadoedd canlynol?”](#)
- [Ffigur 6: C6 “O ran y capasiti a oedd gennych ar gael, faint ohono a gafodd ei archebu ar gyfer ... ?” \(gweithredwyr llety\)](#)
- [Ffigur 7: cymharu lefelau deiliadaeth net o un flwyddyn i'r llall](#)
- [Ffigur 8: C7 “Faint o'r capasiti sydd gennych ar gael sydd wedi'i archebu ar gyfer ...?”](#)
- [Ffigur 9: C8 “Pa mor hyderus ydych ynglŷn â rhedeg y busnes yn broffidiol eleni?”](#)
- [Ffigur 10: “Pa mor hyderus ydych ynglŷn â rhedeg y busnes yn broffidiol eleni?” \(tuedd yn ôl blwyddyn\)](#)
- [Ffigur 11: C9 “Pa mor aml ydych yn derbyn gwesteion sy'n beicio tra byddant yn aros yn eich ardal?”](#)
- [Ffigur 12: C10 “Pa mor bwysig yw twristiaeth feicio i ddyfodol eich busnes?”](#)
- [Ffigur 13: C11 “Bydd Cymru yn cynnal un o gymalau'r Tour de France yr haf nesaf. A ydych yn bwriadu manteisio ar y cyfle hirdymor a ddaw yn sgil hybu beicio yng Nghymru trwy gyfrwng y Tour de France?”](#)
- [Ffigur 14: C12 “Sut ydych yn bwriadu manteisio ar y cyfle hirdymor?” \(heb gymell\)](#)
- [Ffigur 15: C13 “Yn eich tyb chi, i ba raddau y mae eich busnes wedi'i gynllunio ar gyfer cwsmeriaid ag anghenion hygyrchedd? Mae enghreifftiau o anghenion hygyrchedd yn cynnwys anghenion yn ymwneud â'r golwg a'r clyw, anghenion symudedd ac anghenion gwybyddol.”](#)
- [Ffigur 16: C14 “A ydych yn hyrwyddo eich busnes fel busnes sydd wedi'i gynllunio'n dda ar gyfer cwsmeriaid ag anghenion hygyrchedd a'r hyn y gallwch ei ddarparu ar eu cyfer?”](#)

- [Ffigur 17: C15 “A ydych yn sylwi ar unrhyw newidiadau o ran pa mor aml y mae cwsmeriaid neu ddarpar gwsmeriaid yn holi am anghenion hygyrchedd a’r hyn y gallwch ei ddarparu?”](#)
- [Ffigur 18: C16 “A oes gennych ddiddordeb mewn cael cyngor gan Croeso Cymru ynglŷn â sut y gallai eich busnes fod yn fwy hygyrch?”](#)
- [Ffigur 19: C17 “Sut fath o gyngor a fyddai’n ddefnyddiol?” \(gellir eu cymell pe bai angen\)](#)

1. Y prif ganfyddiadau

Denwyd ymwelwyr gan dywydd heulog cynnes

Cafodd oddeutu traean (34%) o fusnesau fwy o ymwelwyr yr haf hwn o gymharu â'r haf diwethaf, a chafodd 45% yr un lefel o ymwelwyr. Dim ond lleiafrif o fusnesau (21%) a ddywedodd fod nifer eu hymwelwyr wedi gostwng. Mae'r cynnydd hwn i'w weld yn gyson ar draws pob sector a rhanbarth. Er gwybodaeth, roedd haf 2025 yn debyg iawn i haf 2024.

Y rheswm mwyaf cyffredin a nodwyd am fod yn brysurach nag arfer oedd y tywydd (dywedwyd hyn yn ddigymell gan 54% o'r gweithredwyr a fu'n brysurach). Yn ôl y [Swyddfa Dywydd](#), credir mai haf 2026 (Mehefin – Awst) fu'r haf cynhesaf i'w gofnodi yn y DU, gyda sawl diwrnod dros 30 gradd ac ychydig iawn o law tua diwedd mis Awst.

Mae ansicrwydd ynghylch incwm gwario yn parhau i lesteirio'r galw

Ni chafodd pob busnes haf prysur. Y rheswm mwyaf cyffredin a nodwyd yn ddigymell gan weithredwyr oedd bod 'pobl yn brin o incwm gwario' (34%). Hefyd, dywedodd rhai busnesau na fu'r tywydd cynnes o help iddynt, yn enwedig atyniadau dan do yn ystod cyfnodau o dywydd dymunol yn yr awyr agored, neu atyniadau awyr agored nad oedd ganddynt lawer o gysgod i'w gynnig yn ystod tywydd poeth iawn.

Cynnydd yn niferoedd ymwelwyr tramor

Dywedodd traean (32%) o fusnesau eu bod wedi cael mwy o ymwelwyr tramor o gymharu â'r llynedd, a dywedodd eu hanner (50%) eu bod wedi cael yr un lefel o ymwelwyr tramor. Perfformiodd marchnadoedd tir mawr Ewrop yn dda, yn enwedig yr Almaen a'r Iseldiroedd.

Cyfleoedd beicio'r Tour de France

Dywedodd rhai busnesau (13%) fod twristiaeth feicio'n 'bwysig iawn' i ddyfodol eu busnes, a dywedodd 22% yn ychwaneg fod yr elfen honno'n 'weddol bwysig'. Ymhlith y rhai a oedd o'r farn bod twristiaeth feicio'n bwysig, roedd 42% yn bwriadu manteisio ar y cyfle hirdymor a ddaw yn sgil hybu beicio yng Nghymru trwy gyfrwng y Tour de France.

Diwallu anghenion hygrychedd

Roedd un o bob pump (20%) o weithredwyr o'r farn bod eu busnes wedi'i gynllunio'n 'dda iawn' ar gyfer cwsmeriaid ag anghenion hygrychedd, ac roedd 40% yn ychwaneg o'r farn bod eu busnes wedi'i gynllunio'n 'weddol dda'. Yn achos y rhai a oedd o'r farn bod eu

busnes wedi'i gynllunio'n dda ar gyfer cwsmeriaid ag anghenion hygrychedd, roedd eu hanner (50%) yn hyrwyddo'r agwedd honno ar eu busnes.

Roedd gan oddeutu chwarter (23%) o weithredwyr ddiddordeb mewn cael cyngor gan Croeso Cymru ynglŷn â sut y gallai eu busnes fod yn fwy hygrych. Dyma'r math o gyngor y byddent yn dymuno'i gael:

- Sut i ymgeisio am grantiau (69%)
- Sut i ddiwallu anghenion mewn modd cost-effeithiol (52%)
- Esboniad o'r gwahanol anghenion a'r modd y gellir eu diwallu (52%)
- Sut i gydymffurfio â'r gyfraith (45%)

Hyder

Roedd oddeutu un o bob pump (18%) o weithredwyr yn teimlo'n 'hyderus iawn' ynglŷn â rhedeg busnes proffidiol eleni, a dywedodd 44% yn ychwaneg eu bod yn 'weddol hyderus'. Llwyddodd y tywydd braf dros yr haf i roi hwb i nifer yr ymwelwyr, ond dywedodd rhai gweithredwyr fod costau cynyddol yn ei gwneud hi'n anodd iddynt barhau i fod yn broffidiol.

Llwyddodd perfformiad da dros yr haf i roi hwb i hyder gweithredwyr eleni. Cafodd y lefelau hyder a fesurwyd ar yr un adeg y llynedd eu llesteirio'n fawr gan y cynnydd mewn costau byw. Ym mis Medi 2025, roedd 21% o weithredwyr yn teimlo'n 'hyderus iawn' ac roedd 31% yn teimlo'n 'weddol hyderus'.

2. Cefndir a dull

Beth yw Baromedr Busnesau Twristiaeth Cymru?

Bwriad Baromedr Busnesau Twristiaeth Cymru yw cynnig adborth cyflym ar berfformiad y diwydiant twristiaeth yng Nghymru ar adegau hollbwysig yn ystod y flwyddyn. Mae'r cam hwn yn edrych ar berfformiad haf 2026. Y pynciau *ad hoc* y tro hwn yw pwysigrwydd twristiaeth feicio a darparu ar gyfer cwsmeriaid ag anghenion hygyrchedd.

Sut y cynhaliwyd yr arolwg?

Cynhaliwyd 900 o gyfweiliadau dros y ffôn. Mae canlyniadau'r cwestiynau a ofynnwyd i bawb y gywir i $\pm 3.3\%$. Mae cydbwysedd y sampl fesul rhanbarth a sector yn adlewyrchu'n fras y diwydiant yng Nghymru. Mae'r gronfa ddata cysylltiadau a ddefnyddiwyd yn gyfuniad o restr Croeso Cymru o fusnesau graddedig a chronfeydd data o fusnesau nad ydynt wedi'u graddio a gyrchwyd gan gyflenwr annibynnol.

Tabl 1: sampl ymchwil yn ôl sector a rhanbarth

Sector / Rhanbarth	Y Gogledd	Y Canolbarth	Y De Orllewin	Y De Ddwyrain	Cyfanswm
Llety â gwasanaeth	90	65	63	53	271
Hunan arlwyio	80	51	67	23	221
Safleoedd carafannau / gwersylla	34	33	38	14	119
Hosteli	7	3	11	4	25
Atyniadau	67	30	33	28	158
Gweithredwyr gweithgareddau	16	11	15	17	49
Bwytai / tafarndai / caffis	22	2	5	8	57
Cyfanswm	316	205	232	147	900


Mae 72% o'r busnesau sydd yn y sampl wedi cael eu graddio gan Croeso Cymru. Caiff y samplau graddedig a'r samplau nad ydynt wedi'u graddio eu gwasgaru ar draws gwahanol ranbarthau a sectorau ac eithrio bwytai / tafarndai / caffis, lle nad yw'r graddio'n berthnasol.

Cynhaliwyd yr holl gyfweiliadau ffôn gyda rheolwyr neu berchnogion busnesau rhwng yr 2 a'r 22 o Fedi 2026.

3. Perfformiad dros yr haf

Perfformiad yn ôl sector

Ffigur 1: C1 “Faint o gwsmeriaid a gawsoch yr haf hwn o gymharu â'r haf y llynedd?” yn ôl sector



Sail: 854

Ni chynhwyswyd yr atebion 'Ddim yn gwybod' nac 'Amherthnasol'

Rhoddodd tywydd braf hwb i lefelau ymwelwyr

Dywedodd holl sectorau'r diwydiant eu bod wedi cael mwy o ymwelwyr yn ystod yr haf wrth i Gymru fwynhau cyfnodau estynedig o dywydd heulog a chynnes. Y prif reswm pam na welwyd perfformiad gwell fyth oedd oherwydd ansicrwydd ynglŷn â'r economi ac incwm gwario (trafodir hyn yn fanylach dan C3).


“Rydym wedi cael cynifer o alwadau ffôn yr haf hwn – gallem fod wedi gwerthu'r unedau deirgwaith drosodd.”
Parc carafannau, y gogledd

“Rydym wedi cael y mis Awst gorau erioed.”
Atyniad, y gogledd

“Roeddwn yn meddwl y byddem yn gwneud busnes gwych eleni oherwydd y tywydd poeth, ond nid felly y bu. Does gan bobl ddim arian.”
Atyniad, y de ddwyrain

Perfformiad yn ôl rhanbarth

Ffigur 2: C1 “Faint o gwsmeriaid a gawsoch yr haf hwn o gymharu â’r haf y llynedd?” yn ôl rhanbarth



Ni chynhwyswyd yr atebion ‘Ddim yn gwybod’ nac ‘Amherthnasol’

Cysondeb ar draws y rhanbarthau

Dywedodd pedwar rhanbarth Cymru eu bod wedi cael ychwaneg o ymwelwyr. Ni welir gwahaniaethau sylweddol rhyngddynt.

“Dyma’r flwyddyn orau a gawsom erioed.”

Atyniad, y gogledd


“Mae’r tywydd wedi bod yn wych; fe wnaeth hynny olygu ein bod wedi bod yn brysurach.”

Llety â gwasanaeth, y de ddwyrain

Trafodwyd y rhesymau dros fod yn brysurach neu’n dawelach.

Rhesymau dros fod yn brysurach

Ffigur 3: C2 “A oes yna unrhyw resymau pam eich bod wedi cael ychwaneg o gwsmeriaid yr haf hwn?” (heb gymell)



Gofynnwyd C2 i fusnesau a gafodd ychwaneg o gwsmeriaid yr haf hwn (C1). Bu modd i'r ymatebwyr roi mwy nag un ateb.

Bu'r tywydd braf o fudd i nifer o fusnesau

Yn ôl y [Swyddfa Dywydd](#), credir mai haf 2026 (Mehefin – Awst) fu'r haf cynhesaf i'w gofnodi yn y DU, gyda sawl diwrnod dros 30 gradd ac ychydig iawn o law tua diwedd mis Awst.

Helpodd y tywydd braf i ddenu archebion munud olaf gan dwristiaid o'r DU. Bu'r tywydd o fudd arbennig i ddarparwyr gweithgareddau (dywedodd 79% ohonynt fod y tywydd braf wedi esgor ar ychwaneg o ymwelwyr) a'r sector safleoedd carafannau a gwersylla (74%).

Nodwyd hefyd y gallai costau byw cynyddol beri bod twristiaid o'r DU yn aros yn y wlad hon yn hytrach na mynd dramor ar wyliau.

“Oherwydd yr argyfwng costau byw, fe wnaeth ychwaneg o bobl roi cynnig ar brofiadau lleol ac roeddem yn cynnig mwy eleni, felly buom yn brysurach.”
Darparwr gweithgareddau, y de ddwyrain


Marchnata a buddsoddi

Gall hyrwyddo'r busnes a buddsoddi yn yr arlwy esgor ar enillion.

“Y llynedd, dangosodd Croeso Cymru inni sut i hyrwyddo'r busnes ar y cyfryngau cymdeithasol. Edrychwyd ar un o'n riliau fwy na miliwn o weithiau, felly buom yn eithriadol o brysur.”
Llety â gwasanaeth, y gogledd

Rhesymau dros fod yn dawelach

Ffigur 4: C3 “A oes yna resymau arbennig pam y cawsoch lai o gwsmeriaid yr haf hwn?” (heb gymell)



Ansicrwydd ynglŷn ag incwm gwario

Ni chafodd pob busnes haf prysur. Y rheswm mwyaf cyffredin a nodwyd yn ddigymell gan weithredwyr oedd bod ‘pobl yn brin o incwm gwario’, sy’n gysylltiedig ag ‘ansicrwydd economaidd byd-eang’.

“Ni all pobl fforddio mynd ar wyliau fel roedden nhw’n arfer ei wneud. Nid ydym yn hyderus ynglŷn â’r dyfodol. Mae llai o westeion o’r DU yn gallu fforddio pethau oherwydd cyflwr popeth.”
Llety â gwasanaeth, y de ddwyrain

Ni fu’r tywydd yn ‘dda’ i bob busnes bob amser o angenrheidrwydd

Er bod rhai busnesau wedi elwa’n fawr ar haf heulog a chynnes, ar adegau bu’r tywydd yn ‘rhy braf’ i fusnesau mewndirol neu fusnesau dan do gan fod twristiaid wedi ymweld â thraethau.

“Cawsom lawer llai o ymwelwyr o gymharu â’r llynedd: oddeutu 20%. Bu’r tywydd yn rhy braf, ac mae mynd i’r traeth yn ddiwrnod allan rhad.”
Darparwr gweithgareddau, y de ddwyrain


Ar adegau, profiad annymunol oedd bod allan yn yr awyr agored heb gysgod pan oedd y tywydd yn eithriadol o boeth, felly gwelir bod perfformiad busnesau twristiaeth wedi dibynnu’n rhannol ar addasrwydd eu cyfleusterau ar gyfer amodau’r tywydd.

Yn achos yr atyniadau a'r busnesau yn Ne Ddwyrain Cymru a gafodd lai o ymwelwyr, gwelir bod bron i hanner (45%) yr atyniadau a 30% o'r busnesau yn priodoli'r gostyngiad i'r tywydd. Cafwyd cyfnodau o dywydd arbennig o boeth yn Ne Ddwyrain Cymru.

“Rydym wedi bod yn dawelach oherwydd y tywydd poeth.”
Atyniad, y de ddwyrain

Perfformiad yn ôl marchnad

Ffigur 5: C4 “Faint o gwsmeriaid a gawsoch yr haf hwn o gymharu â'r haf diwethaf o bob un o'r marchnadoedd canlynol?”



Sail: 731 – 777

Ni chynhwyswyd yr atebion 'Ddim yn gwybod' nac 'Amherthnasol'

Cynnydd ym marchnad y DU a'r farchnad dramor

Perfformiodd y tair marchnad ddaearyddol yn dda yr haf hwn, yn enwedig marchnad y DU (y tu allan i Gymru) a'r farchnad dramor.

Dengys sylwadau agored fod mwy a mwy o bobl yn gwneud trefniadau munud olaf. Eleni, dewisodd nifer o bobl o'r DU dreulio'u gwyliau yn y DU. Credir bod diffyg incwm gwario yn un rheswm am hyn, a chredir hefyd bod y tywydd eithriadol o boeth yn nhir mawr Ewrop yn cyfrannu at hyn. Er nad yw gweithredwyr yn honni bod newid hinsawdd yn rhywbeth da, gallai canlyniadau newid hinsawdd yn y dyfodol olygu y bydd twristiaid yn osgoi de Ewrop yng nghanol yr haf ac y byddant yn ffafrio hinsoddau oerach.

“Gallai newid hinsawdd fod o fudd i'r diwydiant hunan arlwygo ym Mhrydain [sic]. Mae llai o bobl yn mynd dramor.”
Hunan arlwygo, y de orllewin


Mae ymwelwyr tramor yn dychwelyd i Gymru, yn enwedig o wledydd cyfagos yn Ewrop.

“Cawsom lawer mwy o ymwelwyr o'r Iseldiroedd a Ffrainc eleni.”
Llety â gwasanaeth, y canolbarth

“Cawsom lawer o ymwelwyr o'r Almaen eleni.”
Atyniad, y de orllewin

Lefelau deiliadaeth rhwng Mehefin ac Awst

Ffigur 6: C6 “O ran y capasiti a oedd gennych ar gael, faint ohono a gafodd ei archebu ar gyfer ... ?” (gweithredwyr llety)



Gofynnwyd C6 i weithredwyr llety. Ni chynhwyswyd yr atebion ‘Ddim yn gwybod’ nac ‘Ar gau trwy’r mis’. Mae’r lefelau deiliadaeth a ddangosir wedi’u pwysoli yn ôl maint y busnes.

Lefelau deiliadaeth iach, ond mae tueddiadau’n newid

Gwelir bod y cyfraddau deiliadaeth net dros yr haf yn y tri sector llety (gweler uchod) wedi cyrraedd eu hanterth yn ystod mis Awst, a’u bod yn sylweddol uwch na’r cyfraddau a welwyd y llynedd yn y sector hunan arlwy. Dywedodd gweithredwyr ym mhob sector eu bod yn gweld tuedd arwyddocaol tuag at wyliau byrrach a drefnir ar y funud olaf.


“Mae’r patrwm archebu wedi newid yn llwyr. Roedd pobl yn arfer dod ar wyliau am wythnos neu ddwy, weithiau tair. Nawr, mae pobl eisiau gwyliau byr ac maen nhw’n disgwyl y bydd lle ar gael ar adegau prysur.”
Parc carafannau, y de ddwyrain

“Does neb yn archebu ymlaen llaw erbyn hyn. Caiff popeth ei drefnu ar y funud olaf.”
Llety â gwasanaeth, y gogledd

“Fe wnaethom gychwyn y busnes 60 mlynedd yn ôl ac rydym yn dal i fynd yn ein 80au. Mae’r dyddiau pan oedd pobl yn archebu am wythnos neu ddwy wedi hen fynd. Mae pobl yn mynd ac yn dod bob diwrnod o’r wythnos.”
Hunan arlwy, y gogledd

Dengys y siartiau isod wahaniaethau o un flwyddyn i’r llall yn lefelau deiliadaeth y sectorau:

Ffigur 7: cymharu lefelau deiliadaeth net o un flwyddyn i'r llall



Dan bwysau o hyd i gyrraedd 182 diwrnod yn y sector Hunan arlwyio

Er bod ffigurau deiliadaeth gweithredwyr Hunan arlwyio fel pe baent yn dangos bod y sector yn perfformio'n dda, dywedodd nifer o'r gweithredwyr eu bod dan bwysau i gyrraedd y targed '182 diwrnod' er mwyn cymhwyso ar gyfer ardrethi annomestig. Mewn ambell achos, golyga hyn eu bod yn rhoi'r lle blaenaf i lefelau deiliadaeth ar draul prisiau. Maent yn teimlo bod yn rhaid iddynt fod mor llawn â phosibl dros fisoedd yr haf gan eu bod yn credu bod ganddynt lai o siawns o ddenu archebion y tu allan i'r tymor prysur.

"Rydym mewn pentref glan môr sy'n ffynnu yn ystod yr haf ac sy'n wag yn ystod y gaeaf. Rhaid i'r trothwy deiliadaeth ystyried natur dymhorol y sector."
Hunan arlwyio, y canolbarth

"Ni allwn gyrraedd y trothwy 182 diwrnod: fel arfer, rydym yn cyflawni oddeutu 140 diwrnod. Mae angen ei ostwng yn sylweddol."
Hunan arlwyio, y de orllewin

"Mae'r trothwy 182 diwrnod yn broblem oherwydd rydym wedi gorfod gostwng ein prisiau."
Hunan arlwyio, y canolbarth

Gwahaniaethau yn ôl rhanbarth

Tabl 2: Iefelau deiliadaeth net yn ôl sector a rhanbarth, Mehefin i Awst


Sector / Rhanbarth	Y Gogledd	Y Canolbarth	Y De Orllewin	Y De Ddwyrain	Cymru Gyfan
Llety â gwasanaeth	87%	80%	90%	85%	86%
Hunan arlwyio	80%	83%	84%	76%	82%
Safleoedd carafannau a gwersylla	82%	82%	75%	81%	79%

Fe wnaeth holl ranbarthau Cymru fwynhau cyfraddau deiliadaeth uchel yr haf hwn.

4. Archebu ymlaen llaw a hyder

Archebu ymlaen llaw

Ffigur 8: C7 “Faint o’r capasiti sydd gennych ar gael sydd wedi’i archebu ar gyfer ...?”



Y rhagolygon ar gyfer yr hydref a’r gaeaf

Mae’r tuedd ‘munud olaf’ yn golygu ei bod yn anodd rhagweld yr hyn a fydd yn digwydd yn ystod yr hydref gan fod defnyddwyr yn cadw golwg ar ragolygon y tywydd ac ar eu hincwm gwario.

“Nid oes gennym unrhyw beth wedi’i archebu ar gyfer mis Hydref eto. Ond gan ein bod yn denu llawer o bobl sy’n cerdded yr arfordir, mae pobl yn tueddu i aros a gweld beth fydd hanes y tywydd.”
Hunan arlwygo, y de ddwyrain

“Mae pobl wastad yn archebu ar y funud olaf ar gyfer Hydref a Thachwedd.”
Hunan arlwygo, y canolbarth

Gwahaniaethau yn ôl rhanbarth

Tabl 3: deiliadaeth a archebwyd yn ôl sector a rhanbarth, Hydref i Ragfyr


Sector / Rhanbarth	Y Gogledd	Y Canolbarth	Y De Orllewin	Y De Ddwyrain	Cymru Gyfan
Llety â gwasanaeth	50%	32%	43%	75%	52%
Hunan arlwygo	30%	41%	50%	23%	38%

Mae maint y sampl ar gyfer safleoedd carafanau / gwersylla yn rhy fach i ddwyn cymhariaeth ranbarthol ddibynadwy

Gwelir gwahaniaethau mewn lefelau deiliadaeth cyfredol yn ôl rhanbarth, ond mae’r tuedd o ran archebu lleoedd ar y funud olaf yn golygu y gallai’r darlun hwn newid yn llwyr yn nes at yr amser.

Hyder i weithredu'n broffidiol

Ffigur 9: C8 “Pa mor hyderus ydych ynglŷn â rhedeg y busnes yn broffidiol eleni?”



Sail: 900

Lefelau hyder cyson ar draws pob sector a rhanbarth

Roedd y mwyafrif (62%) o weithredwyr yn teimlo'n hyderus ynglŷn â rhedeg busnes proffidiol eleni. Nid yw'r ganran hon yn amrywio'n fawr yn ôl sector na rhanbarth.

“Dyma'r flwyddyn orau a gawsom erioed.”

Atyniad, y gogledd

Mae costau cynyddol yn achosi pryderon i rai

Pan na fo gweithredwyr yn teimlo'n hyderus ynglŷn â gweithredu'n broffidiol, neu os na wyddant a fydd modd iddynt wneud hynny, nodir bod costau cynyddol yn her fawr.

“Mae ardrethi busnes yn codi. Yr unig beth rydw i'n ei wneud yw gweithio'n galed a gwario arian er mwyn i bobl eraill allu mwynhau gwyliau moethus. Nid oes modd i mi gael gwyliau gyda 'mhlant.”

Parc carafannau, y canolbarth

Ymhlith gweithredwyr hunan arlwygo, ceir pryderon mawr ynglŷn â bodloni'r targed deiliadaeth 182 diwrnod. Trwy ostwng eu prisiau, gallant roi hwb i nifer eu hymwelwyr; ond gwneir hynny ar draul gweithredu busnes proffidiol.

“Os na allwn gyrraedd 182 noson yn ystod y flwyddyn, byddwn yn gweithredu ar golled.”


Hunan arlwygo, y canolbarth

“Mae costau'n cynyddu: gwres, bwyd, glanhawr, garddwr, trydan, petrol, isafswm cyflog, ond rydym yn gorfod gostwng y cyfraddau a godwn ar gyfer pob noson.”

Hunan arlwygo, y gogledd

Tuedd o ran hyder

Ffigur 10: “Pa mor hyderus ydych ynglŷn â rhedeg y busnes yn broffidiol eleni?” (tuedd yn ôl blwyddyn)



Sail:tua 900 y flwyddyn
Gofynnwyd yr un cwestiwn ym mis Medi ym mhob blwyddyn a ddangosir


Cynnydd mewn hyder

Mae perfformiad da dros yr haf wedi helpu i roi hwb i hyder gweithredwyr. Cafodd lefelau hyder y llynedd eu llesteirio gan gynnydd sylweddol mewn costau byw. Er bod hyn yn dal i effeithio ar archebion, ymddengys fod hyder cwsmeriaid a busnesau yn dychwelyd yn raddol.

5. Twristiaeth feicio

Derbyn gwesteion sy'n beicio

Ffigur 11: C9 “Pa mor aml ydych yn derbyn gwesteion sy'n beicio tra byddant yn aros yn eich ardal?”



Gofynnwyd C9 i ddarparwyr llety


Lefelau cymysg o ran derbyn gwesteion sy'n beicio

Gwelir bod oddeutu hanner y gweithredwyr llety yn derbyn gwesteion sy'n beicio, i ryw raddau. Mae hyn i'w weld yn amlach mewn mathau rhatach o lety, h.y. hosteli a safleoedd gwersylla. Nid yw'r atebion yn amrywio'n fawr o ranbarth i ranbarth.

“Bu criw o feicwyr yn aros gyda ni yr haf hwn. Roedd digwyddiad beicio'n cael ei gynnal yn yr ardal.”
Safle gwersylla, y canolbarth

Pwysigrwydd twristiaeth feicio

Ffigur 12: C10 “Pa mor bwysig yw twristiaeth feicio i ddyfodol eich busnes?”



Gofynnwyd C10 i ddarparwyr llety

Pwysig i rai

Gwelir bod pwysigrwydd twristiaeth feicio yn y dyfodol yn amrywio'n fawr ymhlith busnesau, a gwelir bod yr elfen hon yn bwysig i oddeutu traean o fusnesau. Mae'r pwysigrwydd canfyddedig yn is ymhlith busnesau hunan arlwygo o gymharu â sectorau eraill.

“Rydym yn darparu'n dda ar gyfer beicwyr ac mae gennym sied bwrpasol – mae pethau'n argoeli'n dda ar gyfer y flwyddyn nesaf.”

Llety â gwasanaeth, y gogledd


Mae'r gyfran sydd o'r farn bod twristiaeth feicio yn 'bwysig iawn' yn uwch yn Ne Ddwyrain Cymru (19%) o gymharu â gweddill Cymru (11%).

“Nid ydym yn croesawu beicwyr gan mai am un noson yn unig y maen nhw'n archebu lle.”

Llety â gwasanaeth, y canolbarth

Cyfleoedd hirdymor yn ymwneud â'r Tour de France

Ffigur 13: C11 “Bydd Cymru yn cynnal un o gymalau'r Tour de France yr haf nesaf. A ydych yn bwriadu manteisio ar y cyfle hirdymor a ddaw yn sgil hybu beicio yng Nghymru trwy gyfrwng y Tour de France?”



Sail: 221

Gofynnwyd C11 i'r rhai a ddywedodd fod twristiaeth feicio'n 'bwysig iawn' neu'n 'weddol bwysig' i ddyfodol eu busnes yn C10

Gwahaniaethau arwyddocaol yn ôl rhanbarth

Bydd y cymal Tour de France a gynhelir yng Nghymru yn dechrau yn y Trallwng (canolbarth Cymru) ac yn gorffen yng Nghaerdydd. Yn ogystal â chynnig cyfleoedd busnes tra bydd y Tour yng Nghymru, fe fydd yna gyfle hirdymor hefyd i hybu beicio yng Nghymru.

Yn achos y busnesau sydd o'r farn bod twristiaeth feicio yn bwysig i'w dyfodol, mae oddeutu dwy ran o bump ohonynt (42%) yn bwriadu manteisio ar y cyfle hirdymor hwn, a dywedodd 31% yn ychwaneg nad ydynt yn gwybod eto.

“Nid oes gennym feicwyr yn aros gyda ni, ond byddem wrth ein bodd eu cael. Rydym ar lwybr y Tour de France, felly rydych wedi plannu syniad yn ein pennau!”

Hunan arlwygo, y canolbarth

Gwelir bod yr atebion yn amrywio'n fawr o ranbarth i ranbarth. Mae'r bwriad i fanteisio ar y sefyllfa i'w weld yn gryfach yn y rhanbarthau y bydd y Tour yn pasio trwyddynt (sef y canolbarth a de ddwyrain Cymru).

Rhai pryderon ynglŷn â busnes tra bydd y digwyddiad yn cael ei gynnal

Mae rhai busnesau gerllaw'r llwybr yn pryderu y byddant yn colli busnes tra bydd y Tour yn cael ei gynnal, a hynny oherwydd anawsterau'n ymwneud â mynediad.

“Gallai'r Tour de France fod o fudd i ddarparwyr llety a bwyta yn yr ardal, ond bydd yn ddrwg i ni. Mae gennym siop a bydd y ffyrdd yn cael eu cau, felly dim busnes i ni y diwrnod hwnnw.”


Parc carafannau, y canolbarth

“Cynhaliwyd ras feicio i fenywod yma ac achosodd lanastr. Cafodd rhannau o'r ffyrdd eu cau – ni fu o fudd o gwbl i'r economi leol.”

Hunan arlwygo, y canolbarth

Cynlluniau i fachu ar gyfleoedd

Ffigur 14: C12 “Sut ydych yn bwriadu manteisio ar y cyfle hirdymor?” (heb gymell)



Gofynnwyd C12 i'r rhai a oedd yn bwriadu manteisio ar y cyfle hirdymor ("ydw" yn C11). Bu modd i'r ymatebwyr roi mwy nag un ateb.

Hyrwyddo'r arfer o fod yn gyfeillgar i feicio

Mae gweithredwyr sydd eisoes yn gwybod eu bod am fanteisio ar y cyfle yn gweld ystod o bosibiliadau, yn fwyaf cyffredin trwy hyrwyddo'u busnes fel busnes 'cyfeillgar i feicio'.

“Mae beicwyr yn aros a hefyd rydym yn llogi beiciau, yn cynnwys beiciau
hygyrch. Rydym yn bwriadu cynnal digwyddiad y flwyddyn nesaf ochr yn ochr
â'r Tour de France.”

Parc carafannau, y de orllewin

Nid yw nifer o weithredwyr yn siŵr beth i'w wneud gan nad ydynt wedi edrych cyn belled i'r
dyfodol â hynny.


“Bydd yn rhaid inni ddechrau meddwl am y Tour de France gan ein bod wrth
ymyl y llwybr.”

Parc carafannau, y de ddwyrain

6. Anghenion hygyrchedd

Cynnig gwasanaeth i gwsmeriaid ag anghenion hygyrchedd

Ffigur 15: C13 “Yn eich tyb chi, i ba raddau y mae eich busnes wedi’i gynllunio ar gyfer cwsmeriaid ag anghenion hygyrchedd? Mae enghreifftiau o anghenion hygyrchedd yn cynnwys anghenion yn ymwneud â’r golwg a’r clyw, anghenion symudedd ac anghenion gwybyddol.”



Mae digonolrwydd canfyddedig y ddarpariaeth yn amrywio yn ôl sector bras

Roedd tri o bob pump (60%) o weithredwyr o’r farn bod eu busnes wedi’i gynllunio’n dda ar gyfer cwsmeriaid ag anghenion hygyrchedd. Gwelir bod lefel ganfyddedig y ddarpariaeth yn well ymhlith gweithredwyr nad oeddynt yn darparu llety. Hefyd, gwelir bod y digonolrwydd canfyddedig yn uwch yn Ne Ddwyrain Cymru (roedd 73% o weithredwyr o’r farn bod eu busnes wedi’i gynllunio’n dda) o gymharu â gweddill Cymru (57%).

“Mae yna gwmnïau sy’n arbenigo mewn hygyrchedd. Bydd pobl sydd eisiau mynd i gaiacio, er enghraifft, yn siŵr o ddod o hyd i ffordd.”
Darparwr gweithgareddau, y de orllewin

“Rydym wedi dechrau cynnig cadeiriau olwyn am ddim i bobl er mwyn iddynt allu mynd at y traeth.”
Caffi, y gogledd

“Gallwn ddarparu ar gyfer pobl ag anghenion penodol, ond bydd angen i bobl allu symud i ryw raddau ar gyfer y gweithgareddau a gynigiwn.”
Darparwr gweithgareddau, y de orllewin


Y broblem sydd gan nifer o weithredwyr llety yw’r ffaith nad ydynt yn gwybod sut y byddai modd iddynt wneud eu hadeilad yn fwy hygyrch i westeion ag anghenion symudedd.

“Rydym yn adeilad rhestredig, felly cawn ein cyfyngu o ran gwneud newidiadau ar gyfer cadeiriau olwyn.”
Llety â gwasanaeth, y de orllewin

“Dywedodd y ddynes yn y ganolfan groeso leol fod gwir angen llety hygyrch yn yr ardal. Bu’n rhaid imi wrthod tair noson yr wythnos ddiwethaf gan fod yr ystafelloedd i fyny’r grisau. Rydym yn ystyried symud i fyw i fyny’r grisau, gan fod ein hardal fyw ni’n hygyrch.”
Llety â gwasanaeth, y gogledd

Hyrwyddo darpariaeth hygrych

Ffigur 16: C14 “A ydych yn hyrwyddo eich busnes fel busnes sydd wedi’i gynllunio’n dda ar gyfer cwsmeriaid ag anghenion hygrychedd a’r hyn y gallwch ei ddarparu ar eu cyfer?”



Gofynnwyd C14 i'r rhai a ddywedodd fod eu busnes wedi'i gynllunio'n 'dda iawn' neu'n 'weddol dda' ar gyfer cwsmeriaid ag anghenion hygrychedd yn C13

Cymryd camau rhagweithiol – rhaniad 50/50

Mae hanner y gweithredwyr sydd o'r farn eu bod yn darparu'n dda ar gyfer anghenion hygrychedd yn hyrwyddo'u busnes fel busnes hygrych, ond nid yw'r hanner arall yn gwneud hynny. Yn ogystal â bod yn fwy tebygol o deimlo eu bod yn cynnig darpariaeth dda, mae gweithredwyr nad ydynt yn weithredwyr llety hefyd yn fwy tebygol o gymryd camau hyrwyddo rhagweithiol. Nid yw'r atebion yn amrywio'n fawr o ranbarth i ranbarth.

“Mae gennym aelodau staff ag anableddau, yn fy nghynnwys i, y rheolwr. Mae grwpiau rheolaidd yn cyfarfod yma'n wythnosol: grwpiau niwroamrywiol, pobl sydd wedi goroesi strôc ac ati, oherwydd rydym yn gallu darparu ar eu cyfer i gyd.”

Tafarndy, canolbarth

“Nid yw Sir Benfro yn gallu darparu'n dda ar gyfer anghenion hygrychedd. Rydw i'n sylweddoli mai llwybr yr arfordir sy'n denu ymwelwyr yma, ond byddai'n dda o beth pe bai gennym ychwaneg o ardaloedd y gallwn sôn amdanynt wrth westeion sydd mewn cadeiriau olwyn – lleoedd y byddai modd iddynt barcio yno ac ymweld â gwelfannau.”


Hunan arlwy, y de orllewin

“Gallwn drefnu heiciau haws i bobl ag anghenion hygrychedd, ond ceir cwmnïau yn yr ardal sy'n arbenigo yn y math hwnnw o beth ac sydd wedi cipio'r farchnad.”

Darparwr gweithgareddau, y canolbarth

Newidiadau o ran pa mor aml y ceir ymholiadau ynglŷn â hygyrchedd

Ffigur 17: C15 “A ydych yn sylwi ar unrhyw newidiadau o ran pa mor aml y mae cwsmeriaid neu ddarpar gwsmeriaid yn holi am anghenion hygyrchedd a’r hyn y gallwch ei ddarparu?”



Ni welir llawer o newid

Nid yw oddeutu tri chwarter (76%) y busnesau wedi sylwi ar unrhyw newid o ran pa mor aml y cânt ymholiadau’n ymwneud â hygyrchedd. Ymhlith y busnesau sydd wedi sylwi ar newid, ceir cydbwysedd rhwng y rhai sy’n dweud eu bod yn cael ymholiadau mwy mynych a’r rhai sy’n dweud eu bod yn cael ymholiadau llai mynych.

“Mae ein bwthyn dwy ystafell wely wedi’i addasu ar gyfer pobl anabl, ond nid oes llawer o bobl anabl yn aros ynddo.”


Hunan arlwy, y de ddwyrain

“Mae pobl â dementia wedi holi am feicio mynydd. Maen nhw’n cofio sut i fynd ar gefn beic ond mae ganddynt anghenion ychwanegol. Hefyd, rydym wedi gwneud gwaith presgripsiynu cymdeithasol: mae gennym raglen gyda 10 o e-feiciau.”

Darparwr gweithgareddau, y canolbarth

Diddordeb mewn cael cyngor

Ffigur 18: C16 “A oes gennych ddiddordeb mewn cael cyngor gan Croeso Cymru ynglŷn â sut y gallai eich busnes fod yn fwy hygyrch?”




Mae'r diddordeb mewn cael cyngor yn cyfateb i'r ddarpariaeth gyfredol

Dywedodd rhai gweithredwyr (23%) fod ganddynt ddiddordeb mewn cael cyngor gan Croeso Cymru ynglŷn â sut i fod yn fwy hygyrch. Gwelir bod y diddordeb i'w weld yn bennaf ymhlith y rhai sydd o'r farn bod eu darpariaeth yn 'weddol dda' neu 'ddim yn dda iawn' ar hyn o bryd. Gwelir llai o ddiddordeb ymhlith y rhai a leolir yn nau begwn eithaf y raddfa o ran teimlo bod eu darpariaeth yn 'dda iawn' neu 'ddim yn dda o gwbl'. Nid yw'r atebion yn amrywio'n fawr o ranbarth i ranbarth.

“Hoffem wella ein busnes a'i wneud yn fwy hygyrch i bobl ag anabledd.”
Llety â gwasanaeth, y canolbarth

Y math o gyngor y byddent yn dymuno'i gael

Ffigur 19: C17 “Sut fath o gyngor a fyddai'n ddefnyddiol?” (gellir eu cymell pe bai angen)



Gofynnwyd C17 i'r rhai a ddangosodd ddiddordeb mewn cael cyngor yn C16

Gallai gwahanol fathau o gymorth fod yn fuddiol

Yn aml, yr elfen bwysicaf mewn perthynas â gwella hygrychedd yw dod o hyd i arian ar gyfer y gwelliannau. Yn achos y gweithredwyr a ddywedodd y byddent yn dymuno cael cyngor, byddai nifer ohonynt yn hoffi cael help i ymgeisio am grantiau neu ganfod ffordd gost-effeithiol o dalu am y gwelliannau.

“Rydym eisiau gwneud cais am grant i osod drysau ffrynt newydd gan nad ydynt yn ddiogel i bramiau na defnyddwyr cadeiriau olwyn.”
Llety â gwasanaeth, y gogledd

“Mae gennym gawod a thoiled hygrych, ond rydym eisiau ymchwilio i ariannu uned gyfan.”
Parc carafanau, y canolbarth

Nid yw rhai gweithredwyr yn gwybod ble i ddechrau a byddent yn gwerthfawrogi cael gwybod am y gwahanol anghenion a'r modd y gellid eu diwallu.

Yn aml, mae bod yn berchen ar hen adeilad – sef adeilad nad yw'n cydweddu'n naturiol ag anghenion symudedd neu a leolir mewn ardal anhygrych – yn rhwystro gweithredwyr rhag gwneud gwelliannau, ond byddai rhai gweithredwyr yn gwerthfawrogi cael gwybod a oes yna unrhyw beth y gallant ei wneud.

“Mae gennym dri chwt bugail. Mae ganddynt risiau. Hoffem gael gwybod sut i'w gwneud yn fwy hygrych.”
Safle gwerysyla, y de orllewin